# Datganiad ar Bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb Coleg Gŵyr Abertawe

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

| | |
|---|---|
| **Cyhoeddwyd** | **Chwefror 2022** |
| **Dyddiad Adolygu** | **Chwefror 2024** |
| **Awdur** | **Paul Vincent, Swyddog Amrywiaeth a Chydraddoldeb** |
| **Lleoliad y Datganiad** | **Intranet/Policies & Procedures/Corporate** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Grŵp Cynllunio Strategol** |

**Datganiad ar Bolisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb Coleg Gŵyr Abertawe**

**Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i gyflawni ei ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a thrin pawb yn gyfartal ac yn deg, gan eu parchu mewn perthynas â phob agwedd ar fywyd Coleg.**

**Cyfrifoldebau**

**Mae myfyrwyr, prentisiaid, staff, partneriaid, cyflogwyr prentisiaid a defnyddwyr gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd ag arferion gweithio sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Disgwylir iddynt hefyd barchu amrywiaeth ac adrodd am unrhyw arferion neu ymddygiad gwahaniaethol.**

**Bydd staff y Coleg yn helpu i hybu cydraddoldeb ar draws y Coleg a sicrhau bod y Coleg yn diwallu ei nodau cydraddoldeb drwy:**

- barchu myfyrwyr, prentisiaid, cydweithwyr, partneriaid, cyflogwyr prentisiaid a defnyddwyr gwasanaeth a pheidio ag aflonyddu na gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail nodweddion gwarchodedig;
- meithrin cysylltiadau da ac agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth a herio unrhyw stereoteipio a rhagfarnau;
- delio ag ymddygiad gwahaniaethol, aflonyddu ac erledigaeth mewn modd priodol;
- gwneud gwasanaethau, adnoddau ac addysg yn hygyrch a rhoi cyfle i bawb gyflawni eu potensial llawn a chymryd rhan ym mywyd y Coleg;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig a phobl sydd ag anghenion gwahanol i eraill;
- dileu unrhyw anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle mae eu cyfranogiad yn isel.

**Disgwylir i ddysgwyr a phrentisiaid:**

- barchu myfyrwyr a staff eraill;
- adrodd am arferion neu ymddygiad gwahaniaethol;

- peidio â gwahaniaethu nac aflonyddu myfyrwyr, staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth eraill. Gall hyn gynnwys ymddwyn yn sarhaus neu eithrio neu fygwth eraill.

## Ymgysylltu â'r Polisi

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn hyrwyddo ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i staff a Rhanddeiliaid drwy wefan y Coleg a'r rhyngrwyd. Ar gyfer prentisiaethau, bydd y Coleg yn hyrwyddo'r Polisi trwy lawlyfrau Dysgwyr a Chyflogwyr.

Rhaid i bob aelod o staff gynnal eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae Rheolwyr yn gyfrifol am hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda'u timau staff, dysgwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, lle bo angen.

## Cwynion a Thorri'r Polisi

Bydd cwynion ac achosion o dorri'r polisi yn cael eu trin yn brydlon ac yn sensitif, yn unol â gweithdrefn gwyno, achwyn a disgyblu'r Coleg.

## Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb** sector cyhoeddus i:

- **ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon**;
- **hybu cydraddoldeb a chyfle cyfartal** ymhlith pobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig;
- **meithrin cysylltiadau da** gyda phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn meddu ar nodweddion gwarchodedig.

**Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil.**

### Dyletswyddau Penodol

Dyma'r camau y mae'n rhaid i sefydliadau eu cymryd i ddangos eu bod yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Maent yn cynnwys:

- cynlluniau ac amcanion strategol;
- ymgysylltu;

- asesu effaith;
- gwybodaeth am gydraddoldeb;
- gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau mewn cyflog a hyfforddiant staff;
- caffael;
- prosesau cyhoeddi ac adrodd blynyddol;
- adolygu;
- hygyrchedd.

## Hyfforddiant i Staff ar Weithredu'r Polisi

Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant fel rhan o'r prosesau sefydlu a DPP, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'n dyletswydd cydraddoldeb fel cyflogwr sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys recriwtio staff, darparu ein gwasanaethau, gan gynnwys darpariaeth prentisiaethau a gweithio â chyflogwyr a phrentisiaid. Mae gennym Gynllun Gweithredu Anableddau Dysgu sy'n cael ei adolygu yn flynyddol i gynyddu nifer y prentisiaid ag anableddau a chyflyrau iechyd.

## Hybu Cydraddoldeb a Monitro ein Cynnydd

Mae ein **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol** yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau y bwriadwn eu cymryd i'w rhoi ar waith. Mae'r cynnydd sy'n ymwneud â gweithredu ein hamcanion yn cael eu hadolygu gan Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg, a gadeirir gan y Pennaeth. Mae ein **Hadroddiadau Cynnydd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth** yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Coleg yn ei gyflawni o ran cyflawni nodau a hybu cydraddoldeb. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys y data a'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sy'n ofynnol dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Gellir cyrchu'r dogfennau hyn ar wefan y Coleg www.gcs.ac.uk trwy fynd i ***About Us/Policies and Procedures.***

**Am ragor o wybodaeth ynghylch y datganiad polisi hwn, cysylltwch ag Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Coleg Gŵyr Abertawe:** **paul.vincent@gcs.ac.uk**

**Llofnod:** 

**Cymeradwywr y Polisi:** Mark Jones, Pennaeth

**Dyddiad:** 28 Chwefror 2022